CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHU YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL PENRHYN-COCH AC YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL PENLLWYN

4.00 – 5.30 pm, 20 Mehefin 2023

Yn bresennol (Hybrid)	Robert Mills (Cadeirydd), Y Cynghorydd Caryl Roberts, Rhodri Gibson, Ceris Gruffudd, Gareth Hoskins, Siân Lloyd Donnelly, Bethan Evans, Emma Morris, Adrian Price, Bryn Shepherd, Catryn Lawrence (Pennaeth)
Clerc:	Wendy Jones (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:		Gweithredu gan*:
	CYFLWYNIAD – LLAIS Y DISGYBL:	
	Rhoddodd disgyblion gyflwyniad am weithgareddau a chyflawniadau yn Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Penllwyn. Nodwyd y pwyntiau canlynol. • Roedd disgyblion wedi cystadlu mewn sawl cystadleuaeth chwaraeon gyda'r Urdd, a oedd wedi cynnwys criced, traws gwlad, pêl-droed, pêl-rwyd a rygbi. Roedd yr ysgolion yn gallu cyfuno disgyblion er mwyn creu un tîm, ar roedd hyn wedi cynnig mwy o gyfleoedd i gystadlu. • Roedd disgyblion wedi cymryd rhan mewn Wythnos Bwyta'n Iach ac roeddent wedi mwynhau blasu ffrwythau newydd fel melon dŵr, ciwi a phomgranad ac arbrofi gyda ffrwythau mewn dŵr a chebabau ffrwythau. • Cynhaliwyd Wythnos Iechyd Meddwl ar thema Cysylltiadau ac roedd sawl gweithgarwch wedi cael eu cynnal. • Cynhaliwyd Wythnos Cerdded ac Olwynion gyda Sustrans ac roedd nifer o ddisgyblion wedi cymryd rhan trwy feicio i'r ysgol a theithio ar sgwter i'r ysgol. Roedd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn Ysgol Penrhyn-coch wedi cymryd rhan mewn sesiwn Diogelwch ar y Ffordd. Roeddent wedi rhoi cyflwyniad i'r cyhoedd hefyd yn neuadd y pentref er mwyn annog diogelwch ar y ffyrdd yn y pentref. • Dosbarthwyd holiadur i rieni am ddiogelwch ar y ffyrdd ac roedd y rhan fwyaf wedi cytuno bod diogelwch ar y ffyrdd yn broblem. Holodd y disgyblion i'r preswylwyr sy'n byw gerllaw yr ysgol am eu safbwyntiau nhw. • Roedd cynrychiolwyr y Cyngor Eco wedi sicrhau'r Wobr Platinwm unwaith eto. • Fel rhan o brosiect Celfyddydau Mynegiannol, roedd disgyblion wedi ystyried Gwlân Cymreig ac roeddent wedi cymryd rhan mewn gweithdy ar-lein gyda Caryl Jones o Chwaethus, gan ystyried ffabrig gwlân gan felinau yng Nghymru. Roedd disgyblion wedi meithrin sgiliau gwnïo yn	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredu gan*:
	ogystal â sgiliau dylunio a thechnoleg yn ystod y prosiect. • Roedd disgyblion wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth Celf a Chrefft gydag Eisteddfod yr Urdd. • Roedd yr Ysgolion wedi cymryd rhan mewn cystadlaethau yn Sioe Sirol Aberystwyth hefyd. • Roedd Tom Holt wedi ymweld â'r ysgol i gynnal gweithdy am yr hyn y gallai'r disgyblion ei wneud i gynorthwyo anifeiliaid sydd mewn perygl. • Roedd disgyblion wedi cymryd rhan mewn prosiect gan Lywodraeth Cymru am 'Garu Gwenyn' ac roeddent wedi ymrwymo i greu ardaloedd cyfeillgar i wenyn yn y ddwy ysgol. • Yn ogystal, roedd disgyblion wedi cymryd rhan mewn Darllen dros Gymru. Roedd Cyngor Llyfrau Cymru wedi creu Diwrnod Darllen Grŵp a bu'r disgyblion yn cymryd rhan ac yn cyfarfod Meinir Siôn, sy'n awdur. Roeddent wedi creu eu straeon eu hunain a chynllunio eu cloriau llyfr eu hunain. Yn ogystal, bu disgyblion yn cystadlu wrth greu hysbyseb am lyfr. • Mae'r ysgolion yn cael nifer fawr o lyfrau gan Gyngor Llyfrau Cymru bob tymor. Mae disgyblion yn Ysgol Penllwyn wedi creu llyfrgell gan ddefnyddio'r llyfrau a chaiff system debyg ei chreu yn Ysgol Penrhyn-coch maes o law. • Bu'r ddwy ysgol yn cydweithio er mwyn treulio diwrnod cyntaf yn dathlu crefyddau'r byd. • Roedd Angharad Fychan wedi cynnal gweithdy gyda disgyblion Ysgol Penrhyn-coch er mwyn creu enw ar gyfer ystad o dai newydd. Bu'n gyfle i'r disgyblion ddysgu am hanes lleol ac enwau lleoedd. Bu'r broses yn ddefnyddiol i'r cwmni adeiladu a byddant yn cynnal y broses eto ar gyfer eu holl ystadau tai newydd.		
1	**YMDDIHEURIADAU:**		
	Cafwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Sarah Hughes, Y Cynghorydd Rhodri Davies a Catherine Jones. **PENDERFYNWYD** derbyn yr ymddiheuriadau uchod.		
2i	**DATGELU BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD:** Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r canlynol:		
	•	yr angen i ddatgelu eu budd mewn unrhyw eitem ar yr agenda neu a drafodir yng nghyfarfod y Corff Llywodraethu, a fyddai'n golygu y byddai angen iddynt adael y cyfarfod;	
	•	byddai unrhyw fudd a ddatgelir yn cael ei gofnodi;	
	•	bod eitemau a drafodir yn ystod cyfarfodydd yn gyfrinachol ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus.	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredu gan*:
	PENDERFYNWYD nodi'r uchod.		
2ii	**AELODAETH Y CORFF LLYWODRAETHU**:		
	Yn dilyn hysbyseb yn ddiweddar, penodwyd y Llywodraethwyr canlynol: • Ailbenodwyd Robert Mills a Rhodri Gibson yn Rhiant-Lywodraethwyr i gynrychioli Ysgol Penrhyn-coch am gyfnod o bedair blynedd; • Penodwyd Emma Morris ac Adrian Price yn Llywodraethwyr newydd i gynrychioli Ysgol Penllwyn am gyfnod o bedair blynedd. • Roedd Cyngor Cymuned Trefeurig wedi enwebu'r Cynghorydd Ceri Evans i'w cynrychioli ar y Corff Llywodraethu. Estynnwyd croeso i'r Aelodau newydd i'r cyfarfod.		
2iii	**COFNODION:**		
	Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2023, ar yr amod y dylai cofnod 6a ddarllen fel hyn: 'Cafwyd hyfforddiant a chymorth gan Athrawon Ymgynghorol Cymhwysedd Digidol er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysgu. Byddai hyn yn cael ei ailystyried yn ystod Gweithdy 2.' Byddai'r Cadeirydd yn llofnodi copi o'r cofnodion ac yn eu hanfon ymlaen i Adran y Llywodraethwyr.		Cadeirydd
2vi	**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD I'R RHIENI 2022-2023**:		
	PENDERFYNWYD nodi y byddai Robert Mills a Gareth Hoskins yn paratoi adroddiad a fyddai'n amlygu'r elfennau cadarnhaol. Byddai'r adroddiad drafft yn cael ei rannu gydag aelodau cyn ei ddosbarthu i'r rhieni.		RM/GH
3i	**ADRODDIAD Y PENNAETH:**		
	Darparwyd copi o adroddiad y Pennaeth i'r Aelodau yn flaenorol. Cafwyd trafodaeth am y canlynol:		
	a)	**Data Disgyblion:** Nifer ar y gofrestr yn ystod tymor yr Haf 2023: Ysgol Penrhyn-coch - 103 Ysgol Penllwyn – 42 Byddai'r dosbarth Blwyddyn 3 a 4 ym Mhenrhyn-coch yn cynnwys 35 disgybl ym mis Medi 2023. Ystyriwyd dewisiadau amrywiol er mwyn rhannu'r dosbarth, ond nid oedd unrhyw rai yn addas. Felly, cytunwyd cynnal y dosbarth o 35 disgybl gyda staff ychwanegol. Mae'r dosbarth yn cynnwys nifer o ddisgyblion ADY, y mae ganddynt staff cymorth un i un ac y maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredu gan*:
		ystafell ddosbarth, sy'n gostwng nifer y disgyblion i 32. Roedd y Pennaeth wedi ystyried y cam o greu ystafell feithrin, fodd bynnag, byddai gofyn cael o leiaf 12 disgybl er mwyn gweithredu'r ddarpariaeth. Byddai gofyn cael ardal cegin ar wahân ar gyfer yr ystafell. Nid oedd unrhyw le ar gael ar hyn o bryd a byddai'r sefyllfa yn cael ei monitro. **Holodd Aelod a fyddai'r mater gyda maint dosbarthiadau yn parhau yn y dyfodol.** O ganlyniad i'r ffaith bod Blwyddyn 2 yn Ysgol Penrhyn-coch yn cynnwys 19 disgybl, byddai'r broblem yn parhau wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Pan geir ceisiadau derbyn, fe'u derbynnir oherwydd y byddai'r broses apêl yn rhoi caniatâd gan bod lle ar gael mewn blynyddoedd ysgol eraill. **Holodd Aelod sut fyddai staff yn ymdopi gyda'r cynnydd yn nifer y disgyblion.** Byddai'r disgyblion yn y Dosbarth Derbyn, felly roedd digon o le yno iddynt. **Mynegwyd pryder gan Aelod am y diffyg goruchwylwyr amser cinio, ar gais y Staff Cymorth.** Dywedodd y Pennaeth bod rôl y Goruchwylydd Amser Cinio yn wag am yr ail dro eleni, a byddai'n cael ei hysbysebu unwaith eto. Mae Staff Cymorth yn cyflawni mwy o ddyletswyddau na'r hyn yr oedd gofyn iddynt ei wneud yn flaenorol, fodd bynnag, maent yn cael hanner awr o egwyl amser cinio yn unol â'u contract cyflogaeth. Mae gofyn monitro un disgybl ADY yn gyson yn ystod unrhyw gyfnodau egwyl, ac mae hyn yn ychwanegu at y llwyth gwaith cyffredinol. **Holodd Aelod a oes problem benodol wrth gadw Goruchwylydd Amser Cinio.** Yr oriau gwaith yw un awr y dydd, yng nghanol y dydd. Roedd y staff a benodwyd wedi symud ymlaen i waith arall gydag oriau mwy addas. **Holodd Aelod a fyddai modd i wirfoddolwr gyflawni'r rôl pe bai archwiliad DBS yn cael ei gynnal ohonynt.** Byddai'r Pennaeth yn ystyried hyn. **Holodd Aelod a yw'r Pennaeth yn pryderu am y gostyngiad yn nifer y disgyblion yn Ysgol Penllwyn i 36.** Mae mentrau yn eu lle i gael cyswllt cymunedol. Cynhaliwyd prynhawn agored ar gyfer darpar rieni a rhieni presennol. Cofrestrodd un teulu newydd yn yr ysgol yn dilyn y digwyddiad. Trefnwyd digwyddiad cymunedol ar 30 Mehefin. Bydd arwyddion newydd yn fuddiol er mwyn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r ffaith bod ysgol ym Mhenllwyn. Mae gan yr ysgol berthynas dda iawn gyda'r Ysgol Feithrin. Dywedodd y Pennaeth y bydd yr Aelodau pwyllgor sy'n rhedeg y Clwb ar ôl Ysgol yn Ysgol Penllwyn yn camu i lawr wrth i'w plant symud ymlaen i ysgol uwchradd. Roedd yr ALl wedi cynghori y dylai'r Pennaeth fod yn Unigolyn Cyfrifol ar gyfer y Clwb ac y dylai'r Corff Llywodraethu	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredu gan*:
		ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros y Clwb ar ôl Ysgol fel is-bwyllgor. Mae'r clwb yn cynnig dau brynhawn gyda'r ysgol ar hyn o bryd, gan ddarparu noson ychwanegol i Glwb yr Urdd. Mae grantiau o hyd at £10,000 ar gael ar gyfer Clybiau Ar ôl Ysgol y tu allan i'r dosbarth, ac nid oes unrhyw un yn gwneud cais am y rhain. Byddai'r Clwb yn cael budd o fod yn elusen gofrestredig hefyd. **PENDERFYNWYD** cytuno i'r cynnig mewn egwyddor, gan aros am ganlyniad cyfarfod cyffredinol blynyddol y clwb cyn symud ymlaen gyda'r mater.	
	b)	**Cyllid**: Rhannwyd y ffurflen Monitro Ariannol gydag Aelodau. Mae'r gyllideb ar gyfer y ddwy ysgol yn iach ar hyn o bryd. • Nid oedd hi'n glir a fydd LlC yn talu am y codiad cyflog ar gyfer staff cymorth. • Roedd y PDG ym Mhenrhyn-coch wedi bod y is na'r disgwyl ac mae'n seiliedig ar ffigurau o'r flwyddyn flaenorol. • Ni chafwyd taliadau gan y Cylch Meithrin ym Mhenllwyn am drydan a dŵr. Roedd y Pennaeth wedi gwneud ymholiadau gyda sawl adran yn yr ALl ond ni chafwyd ymateb. Gallai hwn ddarparu swm ychwanegol o £4,000 i'r gyllideb. Holodd y Pennaeth a fyddai'r Aelodau yn dymuno seilio'r anfoneb ar daliadau blaenorol neu ofyn am ddarlleniadau mesurydd penodol. Byddai'r Cynghorydd Caryl Roberts yn cysylltu â Staff yr ALl i ofyn am ddiweddariad.	CR
	c)	**Iechyd a Diogelwch/Cynnal a Chadw yr Adeilad:** Rhestrir gwaith y mae angen ei wneud yn yr adroddiad. • Mae angen trwsio'r ffens terfyn ym Mhenllwyn. • Roedd mater wedi codi lle'r oedd rhai teganau wedi cael eu symud o iard yr ysgol a diolchodd y Pennaeth i Emma a Sarah am gasglu'r eitemau a'u dychwelyd. • Roedd yr ysgol yn ymwybodol o'r bobl a oedd wedi mynd â'r eitemau i'r ystad. Roedd Llywodraethwyr blaenorol wedi gofyn i iard yr ysgol fod ar agor yn ystod y gwyliau ysgol er mwyn i blant lleol allu manteisio ar y safle gwyrdd. Roedd disgyblion wedi ysgrifennu llythyr at y gymuned leol i'w hysbysu o'r sefyllfa ac y gallai achosion fel hyn gael eu hadrodd i PC Goffin yn y dyfodol. Yn dilyn trafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol: • Mae lle storio ar gael, fodd bynnag, nid yw hi'n ymarferol i staff roi'r eitemau i ffwrdd bob nos. • Nid oes CCTV ar y safle.	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredu gan*:
		• Byddai eitemau yn cael eu diogelu pan fo modd yn y dyfodol. • Byddai'r mater yn cael ei godi gyda PC Goffin. Bu **parcio** ar y llinellau igam-ogam y tu allan i Ysgol Penrhyn-coch yn broblem, ac roedd disgyblion wedi trafod y mater gyda'r unigolion dan sylw. **Watshis clyfar:** Roedd y Pennaeth wedi mynegi pryder am y ffaith bod disgyblion yn gwisgo watshis clyfar yn yr ysgol ar ôl i un gael ei dwyn yn ddiweddar. Yn dilyn trafodaeth, gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i wahardd disgyblion rhag gwisgo watshis clyfar yn y ddwy ysgol.	
	d)	**RADY:** Rhoddodd y Pennaeth gyflwyniad i lansio'r rhaglen er mwyn Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Difreintiedig (RADY) yn dilyn hyfforddiant a gafwyd gan staff yr ysgol. RADY Launch.pptx Yn dilyn trafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol: • Rhoddodd y Pennaeth restr o'r costau fesul disgybl i deuluoedd pan fyddant yn mynychu'r ysgol a rhoddwyd copi ar wefan yr ysgol. • Byddai'r ysgol yn darparu gwybodaeth i rieni am grantiau gwisg ysgol. • Byddai'r ysgol yn darparu gwisgoedd ar gyfer cyngherddau Nadolig gan ddefnyddio eitemau sydd ar gael yn yr ysgol. • Ar hyn o bryd, mae uchafswm o £20 fesul disgybl ar deithiau ysgol. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn helpu i dalu'r costau hyn hefyd. • Gwelwyd cynnydd gyda chyrhaeddiad disgyblion RADY yn ystod y flwyddyn a hefyd, gwelliant o ran eu presenoldeb. • Anogir Llywodraethwyr i gwestiynu'r ysgol am y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion RADY yn ystod cyfarfodydd tymhorol. • Holodd Aelod a gynrychiolir disgyblion RADY ar bwyllgorau. Byddai'r mater yn cael ei ystyried. • Gorffen y gofyniad i ddod mewn gwisg ar Ddiwrnod y Llyfr y Byd. • Gwneud cais am grantiau i fynychu sioeau theatr gan sefydliadau megis 'Go and See'. • Darparu ffrwythau i ddisgyblion Prydau Ysgol am Ddim. • Darparu siop cyfnewid gwisg ysgol a chynnwys esgidiau pêl-droed	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredu gan*:
		ac offer chwaraeon o bosibl. • Byddai'r Cynghorydd Caryl Roberts yn gofyn am gymorth ar gyfer disgyblion Prydau Ysgol am Ddim gan Gyngor Cymuned Trefeurig. Byddai cais yn cael ei wneud i Gyngor Cymuned Penllwyn hefyd, fodd bynnag, nid oes unrhyw ddisgyblion Prydau Ysgol am Ddim yn Ysgol Penllwyn.	
	e)	**Diogelu:** Nifer yr achosion bwlio - 0	
3ii	**CYLLID:**		
	PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gyllideb weithio a osodwyd gan yr Ysgol.		
4	**HYFFORDDIANT AR GYFER LLYWODRAETHWYR:**		
	PENDERFYNWYD nodi'r canlynol: Roedd y Cynghorydd Caryl Roberts wedi cwblhau'r modiwl Ymsefydlu i Lywodraethwyr. Roedd Bryn Shepherd a Rhodri Gibson wedi mynychu hyfforddiant Asbestos.		
5	**POLISÏAU ANSTATUDOL:**		
5i	**Canllawiau Llywodraeth Cymru am Wisg Ysgol:** Roedd y Cynghorydd Sarah Hughes a'r Cynghorydd Caryl Roberts wedi adolygu'r polisi ac ystyried rhaglen RADY. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r polisi.		
5ii	**PENDERFYNWYD** nodi bod y Polisïau Anstatudol canlynol wedi cael eu hadolygu yn unol ag amserlen yr ALl: Polisi DBS/Recriwtio Diogel Polisi Urddas yn y Gwaith Polisi Ymweliadau Addysgol Polisi Anghenion Gofal Iechyd Polisi Tywydd Garw/Amhariad i'r Gwasanaeth Polisi Caniatâd i fod yn Absennol Polisi Plant sy'n Derbyn Gofal Polisi Rheoli Newid Sefydliadol mewn Ysgolion Polisi Rheoli Safle Polisi Atal Eithafiaeth Canllawiau Trawsryweddol i Ysgolion Polisi Toiledau Ysgol Polisi Rheoli Absenoldeb Salwch Polisi Rhwydweithio Cymdeithasol ac E-Ddiogelwch Polisi Rheoli Straen Polisi Camddefnyddio Sylweddau		

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:		Gweithredu gan*:
	Datblygu Cynaliadwy Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Polisi Chwythu'r Chwiban Polisi Bwyd a Ffitrwydd Ysgol Gyfan	
6	**UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD YMLAEN LLAW:**	
	Gwirfoddolwyr: Mae gofyn cael gwirfoddolwyr ar gyfer taith Cyfnod Sylfaen Ysgol Penrhyn-coch i Quackers ar 5 Gorffennaf.	
7	**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**	
	PENDERFYNWYD nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethu Llawn ar 15 Tachwedd 2023.	

WJ
27/6/2023

Cadeirydd …… Dyddiad ……